# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005
# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Y Traeth**
**Abermaw**
**Gwynedd**
**LL42 1HH**
**Rhif yr Ysgol: 6612181**

**Dyddiad yr Arolygiad: 1 Mehefin 2009**
**gan**
**Len Jones**
**16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 3 Awst 2009**
**O dan rif contract Estyn: 1118508**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

107 Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio ar elfennau ysbrydol a moesol, megis pwysigrwydd gonestrwydd. Mae'r profiadau dysgu eang a gaiff y disgyblion yn hyrwyddo'n llwyddiannus eu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol, gan greu ynddynt ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb at yr ysgol, eu hamgylchfyd a'r gymuned. Maent yn ymwybodol o'r angen i helpu eraill a chodir ymwybyddiaeth disgyblion o bobl lai ffodus. Casglant arian a chyfrannu at achosion da yn rheolaidd, megis tuag at Comic Relief a Phlant mewn Angen. Yn ogystal, maent yn noddi addysg plentyn yn Tsieina.

112 Mae nodweddion rhagorol i ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau da er mwyn talu am addysg disgybl mewn ysgol yn Tsieina. Trefnir wythnos 'Dinasyddiaeth Fyd-eang' yn flynyddol, gyda phob dosbarth yn ei dro yn gwneud cyflwyniad i'r ysgol gyfan, er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o bobl ac amodau byw gwahanol sy'n bodoli ar draws y byd.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

210 Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn deall y neges am bwysigrwydd ffrind wrth chwarae rôl i gyfleu stori'r Samariad Trugarog. Mae ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o wyliau Cristnogol, megis y Nadolig a'r Pasg, ac maent yn deall arwyddocâd y dathlu.

211 Maent yn gwybod eu bod yn siarad â Duw wrth weddïo ac maent yn paratoi gweddïau syml i ddiolch. Maent yn gwybod fod Duw yn gallu cyflawni gwyrthiau.

212 Wrth gynnal seremoni priodas mewn eglwys, mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ymwybodol o'r addunedau a wneir gan y cwpwl yn nhŷ Dduw. Maent yn pwysleisio'r angen i garu ei gilydd o fewn priodas ac maent yn deall dyletswyddau'r ficer yn y seremoni.

213 Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am nodweddion yr eglwys a defnyddiant yr eirfa grefyddol yn hyderus.

214 Maent yn gwybod bod yr Iddewon yn dathlu'r ŵyl Hanukkah. Deallant arwyddocâd gwrthrychau megis y canhwyllau yn y Menorah.

215 Maent yn medru dwyn i gof stori Rama a Sita a datblygu eu syniadau am symbolaeth wrth ddathlu gŵyl Divali.

216 Yng nghyfnod allweddol 2, gall disgyblion adrodd digwyddiadau wythnos Creu'r Byd a deallant yn dda yr angen am iddynt hwy barchu ac edrych ar ôl ein byd. Defnyddia'r disgyblion eu medrau dysgu a meddwl yn effeithiol iawn wrth ystyried cwestiynau sylfaenol am grefydd a bywyd, megis perthynas pobl â'i gilydd. Maent yn medru trafod yn hyderus y gwahaniaeth rhwng cymeriad a phersonoliaeth sy'n ein gwneud yn ddynol.

217 Gwyddant hanes Dewi Sant. Defnyddiant eu medrau meddwl yn effeithiol i osod meini prawf wrth benderfynu beth sy'n gwneud person yn sant.

218 Dealla'r disgyblion am bwysigrwydd pererindod a gwyddant am leoliadau megis Tyddewi, Iona, Lourdes a Bethlehem, sy'n bwysig i'r Cristion. Yn yr un modd, maent yn deall arwyddocâd y bererindod i Mecca i'r Mwslim. Trafodant yn ystyrlon sut mae taith yn medru newid pobl. Maent yn mynegi barn wrth drafod cyfyng-gyngor Ahmed a ddylai fynd ar bererindod ai peidio.



219 Wrth drafod llyfrau crefyddol, mae disgyblion yn dod yn ymwybodol o sut mae'r Qur'an yn gwneud gwahaniaeth i fywyd y Mwslim, ac o bwysigrwydd y Beibl i'r Cristion a'r Torah i'r Iddew.

**Diffygion**

220 Nid yw llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn llunio darnau digon estynedig a phersonol ar faterion yn ymwneud â chrefydd.